Adroddiad i'r: Cyngor Sir

Dyddiad y cyfarfod: 6 Gorffennaf 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog: Cyng Julian Thompson-Hill, Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio

Awdur yr Adroddiad: Nicola Kneale, Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol / Iolo McGregor Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Teitl Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2020 i 2021

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd â'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft ar gyfer 2020 i 2021 (gweler atodiad 1), sy'n darparu ein dadansoddiad chwarterol a'n dadansoddiad diwedd blwyddyn, ac yn amlygu prosiectau penodol a chamau cyflenwi yn 2021 i 2022.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth ynglŷn â chynnydd y cyngor o ran darparu canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol yn chwarter 4, 2020 i 2021, gan gyflawni ein rhwymedigaeth statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar berfformiad erbyn 31 Hydref o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae hefyd yn ymateb i'n dyletswydd o amgylch monitro cydraddoldeb (o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur Cymru 2011, sy'n cynnwys y Ddyletswydd newydd economaidd-gymdeithasol); ein cyfraniadau at Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; ac am y tro cyntaf, ymateb i'r gofyn i hunanasesu o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

2.2. Rhoi gwybod i aelodau am brosiectau'r Cynllun Corfforaethol y bwriedir eu cyflawni yn 2021 i 2022, y mae'n rhaid i'r Cyngor ei gyhoeddi i fodloni ei ddyletswydd gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

2.3. Mae adroddiadau rheolaidd yn ofyniad monitro hanfodol yn fframwaith rheoli perfformiad y cyngor. Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau bob chwarter blwyddyn i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet ac yn llunio Adolygiad Perfformiad Blynyddol i werthuso cynnydd.

2.4. Mae'n rhaid gwneud penderfyniad ynghylch cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2020 i 2021.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Argymhellir, yn amodol ar unrhyw newidiadau cytunedig, bod y Cyngor yn cymeradwyo Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2020 i 2021.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022 yn gosod y cyfeiriad strategol i'r cyngor a'i flaenoriaethau dros y cyfnod o bum mlynedd. Nodir y manylion ynglŷn â'r hyn y mae'r cyngor yn bwriadu ei wneud bob blwyddyn i helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn yn y cynlluniau gwasanaeth blynyddol. Mae'r prosiectau yn deillio o Gynlluniau Gwasanaethau a Rhaglenni. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, y Cabinet a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth drwy ein Hadroddiadau Perfformiad Chwarterol.

4.2. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o lwyddiant y Cyngor wrth gyflawni yn erbyn y cynlluniau hyn yn ystod 2020 i 2021, a p'un ai yw'r Cyngor wedi llwyddo i gyflawni ei rwymedigaeth i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus. Mae hefyd yn cael golwg ymlaen at yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni yn 2021 i 2022.

4.3. Am y tro cyntaf mae'n cynnwys pennod 'beilot' newydd i fodloni'r angen i hunanasesu o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'n canolbwyntio ar saith maes llywodraethu allweddol. Gan ddefnyddio tystiolaeth a gyhoeddwyd ac sydd ar gael gan ffynonellau mewnol ac allanol, ac o edrych ar ddata a gytunwyd gan Uwch Reolwyr, mae'r bennod yn peintio darlun ehangach am y cyd-destun y mae'r cyngor yn gweithredu ynddo wrth ddarparu ei amcanion perfformiad. Mae hefyd yn ceisio tynnu ar unrhyw gamau allweddol i wella perfformiad wrth fynd ymlaen. Mae'r adroddiad wedi cael ei ddrafftio yn y ffordd hon ar ôl derbyn cyngor annibynnol trwy CLILC, ac rydym yn sicr y bydd, ar y cyd â'n gwerthusiad arferol o

berfformiad yn erbyn ein blaenoriaethau corfforaethol, yn ateb y gofyniad newydd i gynhyrchu hunanasesiad blynyddol o dan y Ddeddf.

4.4. Yn ogystal â'n pennod newydd ar lechyd Corfforaethol, mae Atodiad 1 yn cynnwys naratif am gynnydd o ran darparu ein blaenoriaethau corfforaethol, gan gynnwys y statws presennol a chynnydd y rhaglen. Ym mhob is-adran blaenoriaeth corfforaethol, mae adrannau Lles a Chydraddoldeb hefyd sy'n sôn am ein cyfraniadau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur Cymru 2011 (sy'n cynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol). Yn ogystal â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, rydym hefyd yn gwerthuso ein cyfraniadau i'r Gymraeg a Datblygu Cynaliadwy, ac yn tynnu allan unrhyw negeseuon allweddol gan ein rheoleiddwyr a data cenedlaethol a gyhoeddwyd. Mae'r Gofrestr Prosiectau Corfforaethol a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol hefyd i'w gweld yng nghefn y ddogfen.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad o lwyddiant y Cyngor i gyflenwi yn erbyn ei flaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer y Cynllun Corfforaethol ei hun, a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Hydref 2017. Bydd unrhyw brosiectau / rhaglenni gwaith unigol o fewn y Cynllun Corfforaethol wedi cael eu hasesu'n unigol, wrth i unrhyw gamau gweithredu newydd fynd ymlaen.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r adroddiad wedi'i ddatblygu gan y Tîm Cynllunio Strategol, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y cyngor. Gofynnwyd am adborth eisoes am yr

adroddiad gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Llywodraethu Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio (bellach yn ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021), Craffu Perfformiad a'r Cabinet. Ar ôl y Cyngor Sir, caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ein gwefan.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes goblygiadau ariannol arwyddocaol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Byddai peidio â chyhoeddi'r Adolygiad Blynyddol erbyn y dyddiad cau ar 31 Hydref yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gyda goblygiadau sylweddol i enw da'r Cyngor.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae'r Cynllun Corfforaethol a'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn elfennau allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sy'n cael ei chefnogi gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Wrth fynd ymlaen, bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn berthnasol.